

Digwyddiad Daearyddiaeth Hadau

Ewch i wefan Cyngor Sir y Fflint drwy ddilyn y cod QR isod i ddysgu mwy am y camau rydym ni'n eu cymryd

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg - gweler y dudalen Gymraeg ar ein gwefan.

This document is also available in Welsh - see Welsh page on our website.



Neuadd y Sirol Mriws Haf 2019

## Darganfod mwy...

Cyfrif pryfed ar flodau:
ukpoms.org.uk/cy/fit-counts

Tyfu dôl fechan, fach:
www.wildlifetrusts.org/actions/how-grow-wild-patch-or-mini-meadow

Y planhigion gorau i bryfed peillio:
www.wildlifetrusts.org/actions/best-plants-bees-and-pollinators

Canllaw ar ffynonellau dŵr mewn gerddi:
www.wildlifetrusts.org/actions/how-provide-water-wildlife

Gwesty pryfed - RSPB:
www.rspb.org.uk/helping-nature/what-you-can-do/activities/build-a-bug-hotel

## Sir y Fflint yn ei Blodau:
## Dolydd blodau gwyllt a glaswelltiroedd

# Blodau gwyllt - blodau gwych!

Mae cynefin dolydd blodau gwyllt wedi lleihau 99% yn y DU oherwydd newidiadau i reoli, datblygu ac isadeiledd, ac arferion ffermio.

Caru Gwenyn
Bee Friendly



Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

**Mae dolydd a glaswelltir yn bwysig ar gyfer ein pryfed peillio, adar, mamaliaid, amffibiaid ac ymlusgiaid ac yn darparu gwasanaethau hollbwysig i ni!**

Mae'r rhan fwyaf o'n safleoedd glaswelltir ni wedi cael eu rheoli'n ddwys dros nifer o flynyddoedd, dan raglen o'u torri'n rheolaidd (gan adael y tocion ar y ddaear). Mae hyn yn creu maeth a ffrwythlondeb yn y glaswelltir. Mae'r maeth hwn wedyn yn gwneud i laswellt bras dyfu sy'n tagu'r blodau gwyllt a hynny dros amser yn lleihau faint o hadau blodau gwyllt sydd ar y tir.



## Dolydd hudolus

- Mae dolydd a glaswelltir yn darparu bwyd a lloches i bryfed peillio a phryfed eraill. Mae pryfed yn fwyd hollbwysig i lawer o greaduriaid eraill. Mae pryfed peillio hefyd yn helpu planhigion i ddwyn ffrwythau a hadau a thyfu eto. Mae 1 o bob 3 cegaid o'n bwyd ni wedi'i beillio gan bryfed!
- Mae blodau gwyllt hefyd yn creu lle brafiach i gerdded ac ymlacio. Mae'n edrych yn brafiach ac mae tystiolaeth bod treulio amser mewn lle naturiol yn gwneud i bobl deimlo'n fwy hamddenol.
- Gall cynyddu llystyfiant naturiol helpu i leihau llygredd yn yr aer.
- Gall ardaloedd naturiol helpu i leihau llifogydd dŵr wyneb. Gall glaw trwm gael ei amsugno i'r ddaear hydraidd a gan wreiddiau planhigion, sy'n arafu'r llif.
- Mae ardaloedd naturiol yn bwysig i helpu i araf u effeithiau newid hinsawdd. Nid coed yn unig sy'n amsugno carbon. Mae llystyfiant fel glaswelltau a blodau gwyllt a'u gwreiddiau'n amsugno carbon o'r atmosffer ac, yn aml iawn, yn well am wneud hyn pan mae mwy o amrywiaeth yn y cynefin.

## Rhyddid i dyfu

Mae dros 150 o safleoedd ar dir Cyngor Sir y Fflint sy'n cael eu rheoli ar gyfer blodau gwyllt a phryfed peillio. Mae gennym ni amrywiaeth o safleoedd o rai sy'n naturiol amrywiol, lle'r ydym ni wedi dechrau rheoli'r safleoedd i warchod y banc hadau gwyllt sydd yno, i safleoedd rydym wedi'u creu drwy hau hadau. Mae'r rhain i gyd o fudd enfawr i'n pryfed peillio gan eu bod nhw'n cysylltu gwahanol gynefinoedd yn yr ardal.

Bydd y rhan fwyaf o'n safleoedd blodau gwyllt yn cael eu torri unwaith ar ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref ar ôl i'r blodau gwyllt flodeuo a hadu. Bydd y tocion yn cael eu casglu oddi ar y safleoedd i gadw'r maeth yn y tir yn isel a chreu'r amodau cywir i flodau gwyllt dyfu.

## Hadau gobaith

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i gynaeafu hadau blodau gwyllt o Sir y Fflint a'r cyffiniau i warchod hadau lleol. Mae hadau lleol yn tyfu'n well dan amodau'r ardal, yn cael eu cyfrif i fod yn fwy llwyddiannus ac yn creu ôl-troed carbon llai na hadau sydd wedi'u prynu o bell. Rydym ni'n cyflwyno ein hadau lleol i safleoedd blodau gwyllt addas rydym yn eu rheoli.

Mae plaladdwyr yn cael eu defnyddio i reoli plâu, chwyn ac afiechydon ac maent yn gallu bod yn niweidiol i'r amgylchedd ac i iechyd pobl. Maent yn cynnwys plaladdwyr, ffyngladdwyr a chwynladdwyr. Maent yn gallu aros yn y pridd, llygru dŵr a niweidio bywyd gwyllt.

Yng Nghyngor Sir y Fflint, rydym ni'n defnyddio cyn lleied â phosib' ar blaladdwyr, ac yn defnyddio ffyrdd eraill, heb wenwyn, i reoli chwyn yn ein hardaloedd trefol.



## Syniadau gwyllt!



Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i gefnogi bywyd gwyllt gartref! Dyma ambell syniad i chi:

- Un rhan bwysig o adfer natur yw rhannu gwybodaetha dealltwriaeth. Mae Cyngor Sir y Fflint yn aml yn trefnu ac yn mynd i ddigwyddiadau i sôn am y cynefin pwysig yma. Cadwch olwg am ein digwyddiadau.

  Gadewch i ran o'ch lawnt dyfu'n hir ar gyfer natur drwy'r gwanwyn a'r haf i weld beth sy'n blodeuo ac yn suo o amgylch eich gardd.

Plannwch hadau blodau gwyllt brodorol (hadau sy'n gynhenid i Brydain) yn eich gardd - boed hynny mewn potiau, cafnau, gwlâu blodau neu ar eich lawnt. Gallwch hyd yn oed eu rhoi ar silff ffenest!

- Darparwch ffynhonnell o ddŵr yn eich gardd - mae dysgl o ddŵr yn ddigon, neu os ydych chi eisiau bod yn fwy anturus, ewch ati i greu pwll!
- Byddwch yn chwilfrydig - cyfrwch yr holl bryfed sy'n glanio ar un math o flodyn mewn 10 munud i weld beth sy'n byw yn eich gardd. Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar yr adnoddau isod.
- Gadewch frigau a dail yng nghornel eich gardd - mae llawer o bryfed yn defnyddio'r ardaloedd ym a i guddio a hel bwyd.
- Gwnewch westy pryfed - lle gwych i bryfed guddio ac i wenyn unigol ddodwy eu hwyau. Darllenwch isod i weld sut mae gwneud